

Diolch yn fawr ichi am y gwahoddiad i ymuno efo chi heddiw yn lansiad y llawlyfr newydd yma. Llongyfarchiadau i'r rhai sydd wedi bod yn gweithio ar ei ddatblygiad oherwydd mae'n adnodd pwysig iawn i helpu'r capeli a'r eglwysi er mwyn cyflawni eu cyfrifoldeb cymdeithasol mewn ffordd real a chyfoes.

Mae fy ngwaith bob dydd i yn ymwneud a hyrwyddo a sicrhau safonau ymarfer uchel ar gyfer pobl sydd yn gweithio ar draws y sector gofal yng Nghymru fel bod hyder yn addasrwydd a diogelwch y gweithwyr hynny. Gweithwyr sydd yn aml yn gweithio efo pobl ar gyfnodau heriol yn eu bywydau. Er bod ganddom ni rôl genedlaethol ac arweiniol, allwn ni ddim cyflawni ar ein pen ein hunain. Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth efo eraill fel fod pawb yn rhannu'r un meddylfryd y bydd newid yn digwydd. Mae'n golygu fod rhaid adolygu, addasu ac adnewyddu ein gwaith yn gyson.

Mae rhyw debygrwydd imi rhwng hyn a'r gwaith y mae'r Panel wedi ei wneud yn diffinio, dehongli a hyrwyddo dealltwriaeth o gyfrifoldeb y capeli a'r eglwysi dros les a diogelwch eu haelodau, ac a dweud y gwir, drigolion y gymdeithas ehangach.

Ar draws Cymru mae enghreifftiau o gapeli ac eglwysi sydd yn rhoi sylw gwirioneddol i'w gwasanaeth cymunedol. Mae ganddynt rôl bwysig i gefnogi ac eiriol ar ran plant a phobl fregus yn ein cymunedau.

Mae yna rhyw sylweddoliad newydd, ac nid jest oherwydd prinder arian dwi ddim yn meddwl, fod cefnogi ein gilydd er mwyn ini fedru parhau i gyfranogi yn ein cymunedau beth bynnag fo ein amgylchiadau yn gyfrifoldeb ini i gyd. Felly hefyd mae ganddom gyfrifoldeb i wneud yn siŵr nad ydy plant na phobl fregus yn cael eu cam-drin, cael eu hesgeuluso neu'n cael cam ac yn wir fod ganddom gyfrifoldeb am eu lles. Mae hyn yn gyfrifoldeb inni i gyd. Ond mae gan arweinyddion ac yn wir aelodau capeli ac eglwysi gyfrifoldeb mwy rhywsut. Nid ydy datgan ein credoau yn dda i ddim os nad ydan ni mewn gwirionedd yn gweithredu yn rhagweithiol ar ran y wanaf yn ein cymunedau.

Bydd rhai o'n haelodau ni neu rhai sydd yn dod i gysylltiad â'r eglwysi neu'r capeli yn fregus, yn cael cam neu yn agored i niwed. Bydd arweinwyr a chefnogwyr yr eglwysi a'r capeli hefyd drwy rol fugeiliol neu ofal yn dod ar draws pobl sydd yn fregus neu yn agored niwed.

Mae'n bwysig ein bod yn deall ein cyfrifoldebau tuag at ddiogelwch plant a phobl fregus.

Yn gyntaf mae yna gyfrifoldeb i sicrhau fod pawb sydd yn ymwneud yn enw'r eglwys a'r capel efo plant a phobl fregus yn bobl addas a saff. Ac yn ail mae 'n bwysig fod pawb sydd yn ymwneud a phlant neu bobl fregus yn gwybod **sut** i ddelio efo sefyllfaoedd ble mae arwyddion o niwed neu gam. Dyna pam fod y gwaith ar y pecyn yma'n holl bwysig.

I droi am ddau funud at y maes gwaith a gofal cymdeithasol eto. Yn anffodus, yn rhy aml, yr unig storïau sydd yn cyrraedd y wasg a'r cyfryngau ydy'r rheiny am y methiannau. Weithiau mae pethau yn mynd o'i le - amgylchiadau ble mae pobl yn cael eu trin efo diffyg parch ac urddas neu yn cael eu cam-drin gan yr union bobl y maen nhw wedi ymddiried eu gofal ynddyn nhw. Pan fo hynny yn digwydd mae yn ein synnu ac yn ein digio. Mae'n ein brifo tu mewn bron gan ei fod mor ffaidd. Y syniad fod plant a phobl sydd yn fregus wedi cael cam gan y rhai sydd i fod o'u plaid.

Mewn amgylchiadau felly mae dau beth yn aml yn siocio. Un, fod pobl yn camddefnyddio eu grym a'u cyfle ac yn cymryd mantais o blant neu bobl fregus; yn ail fod yna bobl eraill o'u cwmpas oedd falle wedi sylwi neu wedi amau ond heb gamu i mewn. Unai wedi dewis anwybyddu neu waeth wedi cynefino.

Fedrwch chi weld fod hyn i gyd yn debyg iawn i'r disgwyliadau sydd gan bobl sydd yn arwain, neu yn gweithio yn gyflogedig neu yn wirfoddol yn ein heglwysi a'n capeli neu yn enw capeli ac eglwysi. Maen nhw mewn sefyllfaoedd ble mae pobl yn ymddiried ynddyn nhw ac felly mae'n holl bwysig fod dealltwriaeth o'r cyfrifoldeb. Mae dyletswydd gofal - duty of care.

Mae 'r dyletswydd yma yn bell gyrhaeddol wir ac yn cynnwys :

- Polisi a threfn glir ar gyfer diogelwch - sydd yn syml, yn ddatganiad o ymrwymiad ac yn hysbys i bawb.
- Hyfforddiant ar godi ymwybyddiaeth sut i adnabod arwyddion o niwed neu gam, neu fod yn agored i niwed neu gam a hefyd sut i ymateb.
- Trefn recriwtio ddiogel ar gyfer pobl sydd yn gweithio efo plant neu bobl fregus ac mae hyn yn cynnwys gweiniogion ac arweinyddion. Rhan o hyn ydy sicrhau fod gwybodaeth briodol am gefndir unigolion - mae unrhyw un sydd yn gwrthod cyd ymfurfio a'r gofynion checks yn fater o

bryder. Allai ddim credu ar ba sail byddai neb yn gwrthod. Does neb uwchlaw'r angen am roi sicrwydd ynglŷn â'u diogelwch a'u haddasrwydd i weithio efo plant a phobl fregus.

- Cod ymarfer a threfn glir ynglŷn â sut i wneud cwyn a delio efo cwynion.
- Ystyried sut drefniadau y gellid eu cynnig ar gyfer cefnogi plant neu bobl fregus.

Rydw i'n cofio bod mewn cyfarfod efo esgobion eglwysi Cymru rai blynyddoedd yn ôl ac roedd trafodaeth onest ynglŷn ag ansicrwydd rhai o wybod sut i ddelio efo dementia - ofn, osgoi, anwybyddu. Ar ddiwedd y dydd allwn ni ddim anwybyddu dementia mwy na salwch meddwl na realiti'r ffaith fod pobl o'n cwmpas yn cael eu niweidio ac yn cael cam ayb. Rhaid inni ddysgu sut i ymateb yn briodol. Gwn fod hyn ar drywydd dipyn yn wahanol rŵan ond diddorol iawn ydy'r ymdrechion sydd yn digwydd i greu trefi a dinasoedd "dementia friendly". Mae llawer i'w ddysgu gan rhain!

Rydan ni wedi symud ymlaen o'r cyfnod pan lansiwyd Er Mwyn ein Plant, pan oedd rhyw bryder fod y capeli a'r eglwysi yn mynd dros ben llestri. Bellach, gobeithio mae gwell dealltwriaeth o'r cyfrifoldeb - fel y dwedais yn gynt - y cyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod pawb sydd yn gweithio yn enw'r capeli a'r eglwysi yn saff ac yn addas. No messing. Hefyd sicrhau dealltwriaeth o'n cyfrifoldeb dros ein gilydd ac eraill yn ein cymunedau - mae hynny yn golygu ymwybyddiaeth o beth yw nodweddion bobl fregus, plant a phobl sydd yn cael niwed a sut i ymateb i hynny.

Nid llefydd i'w mynychu ar y Sul ar gyfer gwasanaethau ydy capeli ac eglwysi i fod. Cymdeithas ydyn nhw sydd i fod yn seiliedig ar egwyddorion o gariad a gofal am gyd ddyn - yn aelodau o'r gymdeithas honno neu yn bobl sydd yn byw yn ein cymunedau.

Felly dylem weld y pecyn fel adnodd sydd yn ein hatgoffa a'n arfogi i fod yn ddinasyddion mwy effeithiol sydd yn byw a gweithredu'r egwyddorion.

**Rhian Huws Williams**

**Prif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru**

**18fed Ionawr 2014**